Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# GWEITHIWR CEFNOGI DIOGELWCH YN Y CARTREF

**Adran Diogelwch Tân – Glannau Dyfrdwy neu Wrecsam**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**Graddfa GTAGC 04 £26,835 - £27,711 y flwyddyn**

Rydym am benodi Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref i ymuno â'n tîm Diogelwch Tân Cymunedol yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub ddyletswydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau ac anafiadau cysylltiedig. Gan weithio gyda chymunedau Gogledd Cymru, mae Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref yn rhoi cyngor ac arweiniad, yn ogystal a gosod offer diogelwch tân addas yng nghartrefi grwpiau targed a nodwyd i gyfrannu at eu hiechyd, diogelwch a lles. O fewn eu meysydd cyfrifoldeb byddant hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau ymwybyddiaeth diogelwch tân ac ymgyrchoedd diogelwch.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus sgiliau cyfathrebu dwyieithog rhagorol, i gyfathrebu'n hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg (i lefel 4) yn hanfodol ar gyfer y swydd hon. Gan feddu ar gymeriad agored ac agos-atoch, bydd yr ymgeiswyr yn canolbwyntio ar y cwsmer ac yn cael eu hysgogi i helpu eraill, yn enwedig pobl agored i niwed o fewn y grŵp targed a nodwyd, i gadw'n ddiogel ac yn iach mewn ffordd barchus a chyfrinachol.

Dylai ymgeiswyr nodi y gallai fod gofyn iddynt weithio y tu allan i oriau gwaith arferol ar achlysuron prin, ar ôl i'r nail ochr a'r llall gytuno.

Sylwch fod y swydd hon yn amodol ar Wiriad DBS Ehangach a geirdaon boddhaol. I cael mwy o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais ydi 12:00 ar Dydd Llun 24ain o Fawrth, 2025**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.